**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Christine.Chapman@cynulliad.cymru

21 Gorffennaf 2015

Annwyl Christine,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Gorffennaf yn nodi'r cwestiynau nas atebwyd yn y sesiwn dystiolaeth olaf ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Mae'n dda gennyf ddarparu'r atebion canlynol.

**Cwestiynau Cyffredinol**

**1. Sut ydych chi'n ymateb i bryderon gan randdeiliaid nad yw adennill treuliau ar gyfer gwaith brys yn cymharu ag adennill dyledion morgais (fel yr awgryma'r Bil), gan fod yr olaf yn dibynnu ar drefniant contract, nad yw'n berthnasol i achos gwaith brys?**

Mae Adran 30 o'r Bil yn darparu ar gyfer adennill costau gwaith brys drwy roi pridiant ar y tir nes bod y costau wedi eu hadennill. Pridiant tir lleol fydd y pridiant hwn.

Dim ond os yw'r pridiant wedi'i gofrestru y caiff yr awdurdod cynllunio lleol werthu eiddo i adennill costau gwaith brys (adran 55 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002). Unwaith y caiff ei gofrestru, caiff y pridiant effaith fel petai wedi'i greu gan weithred pridiant drwy forgais cyfreithiol o fewn yr ystyr a roddir gan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925. Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer pŵer gwerthu, ond rydym wedi gwneud hyn yn eglur drwy gyfeirio at y pŵer hwnnw yn yr adran 55(5E) newydd o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Y dull a fabwysiedir yn y Bil yw'r modd cyffredin y mae awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i adennill treuliau sy'n deillio o ddefnyddio pwerau statudol i gyflawni gwaith. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn adlewyrchu'r rheiny sydd mewn deddfwriaeth arall, Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 er enghraifft. Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol arfer eu pwerau mewn ffordd resymol sy'n cydymffurfio â hawliau dynol, neu gall wynebu adolygiad barnwrol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

**2. Beth yw eich barn ar y cynigion gan randdeiliaid y dylai cytundebau partneriaeth treftadaeth gael eu hehangu i gynnwys asedau treftadaeth eraill, fel tirweddau, parciau a gerddi, meysydd brwydrau hanesyddol a chofnodion cofnodi amgylchedd hanesyddol?**

Nod cytundebau partneriaeth dreftadaeth yw gwneud trefniadau ar gyfer rheoli asedau dynodedig sydd angen cydsyniadau arbennig — adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig — a chael gwared ar yr angen am wneud ceisiadau am gydsyniadau dro ar ôl tro. Nid oes angen cydsyniadau o'r fath ar dirweddau hanesyddol, parciau a gerddi hanesyddol, meysydd brwydrau a safleoedd hanesyddol eraill nad ydynt wedi'u dynodi ond sydd wedi'u cofnodi mewn cofnodion amgylchedd hanesyddol, felly nid oes angen iddynt fod yn rhan o gytundeb partneriaeth dreftadaeth.

Arfer gorau yw creu cynlluniau rheoli anstatudol ar gyfer asedau o'r fath nad ydynt wedi'u dynodi – yn wir, mae defnydd helaeth yn cael ei wneud o gynlluniau o'r fath eisoes. Os yw ystâd yn cynnwys henebion cofrestredig a/neu adeiladau cofrestredig ynghyd ag asedau nad ydynt wedi'u dynodi, gellid datblygu cytundeb partneriaeth dreftadaeth fel rhan o gynllun rheoli ehangach.

**3. A allwch egluro ar ba sail y byddai'n rhesymol i awdurdodau lleol ddewis peidio â chreu cytundebau partneriaeth treftadaeth? A fydd penderfyniadau i beidio â chreu cytundebau o'r fath yn destun unrhyw broses adolygu / apelio?**

Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn hollol wirfoddol a byddant yn ddibynnol ar gytundeb y partïon sy'n rhan ohonynt. Oherwydd hyn, nid wyf o'r farn ei bod yn briodol cyflwyno unrhyw fath o weithdrefn apelio neu adolygu. Bydd arolygwyr Cadw yn gallu goruchwylio a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn gynnar ac, os bo angen, mentora awdurdod cynllunio lleol yn hyn o beth.

**4. A fydd angen i'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol statudol fod ar gael yn ddwyieithog ac, os felly, pa asesiad a wnaed gennych o oblygiadau ymarferol ac ariannol hyn?**

Mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol wedi'u datblygu dros gyfnod o 40 mlynedd ac yn cynnwys dros 150,000 o gofnodion - cofnodion archifol hanesyddol yn bennaf. Yn gyffredinol, derbynnir bod cofnodion archifol hanesyddol yn cael eu heithrio o'r cynllun iaith Gymraeg cyfredol. Rwy'n hollol ymwybodol o'r safonau iaith Gymraeg a gaiff eu cyflwyno'r flwyddyn nesaf, ac rwyf yn gweithio gyda swyddog cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru i ystyried y goblygiadau ar gyfer y cofnodion amgylchedd hanesyddol.

Cydnabyddir y bydd disgwyl i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd fel y nodir o dan adran 34(1)(c) o'r Bil. Mae canllawiau'r cofnod amgylchedd hanesyddol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod cynlluniau a pholisïau yn ymwneud â'u cofnod yn cydymffurfio â'r safonau iaith. Bydd angen cynnwys y gofynion hyn yn y trefniadau cyllido cyfredol a'r cyllid ychwanegol a bennir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol.

**5. Beth fydd cyfansoddiad y Panel Cynghori, a sut y byddwch yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth y rhai hynny sydd â diddordeb yn amgylchedd hanesyddol Cymru?**

Er mwyn i'r panel cynghori fod yn effeithiol, bydd angen sicrhau bod arno drawstoriad eang o sgiliau ac arbenigedd gan adlewyrchu natur amrywiol y sector amgylchedd hanesyddol. Bydd hefyd angen i'r panel fod o faint rhesymol er mwyn darparu cyngor yn gost-effeithlon.

Gyda hyn mewn cof, rwyf eisoes wedi cychwyn ymgysylltu â'r sector i bennu'r cyfuniad mwyaf priodol o sgiliau ac arbenigedd ar gyfer y panel. Wrth recriwtio aelodau'r panel, y brif ystyriaeth fydd sicrhau panel cytbwys o aelodau sy'n meddu ar sgiliau amrywiol a fydd, gyda'i gilydd, yn gallu rhoi cyngor priodol i Weinidogion Cymru ar bob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol. Caiff aelodau eu penodi ar sail eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u harbenigedd personol ac nid fel cynrychiolwyr unrhyw grwpiau buddiant penodol.

**6. I ba raddau y bydd trydydd partïon yn gallu bwydo i mewn i agenda'r Panel Cynghori?**

Bydd y panel yn datblygu ei raglen waith ei hun yn seiliedig ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r sector amgylchedd hanesyddol. Wrth drefnu ei raglen waith, disgwyliwn i'r panel ddatblygu ar y cynlluniau strategol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru, a fydd yn cael eu datblygu bob pum mlynedd gydag adborth gan y sector cyfan.

**7. Pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i gynnwys yn y Bil ofyniad adrodd ar y Panel Cynghori er mwyn sicrhau tryloywder a'r cyfle i graffu'n gyhoeddus?**

Bydd y panel cynghori'n cyhoeddi ei raglen waith a byddem yn disgwyl iddynt adrodd i mi a rhyddhau gwybodaeth ynghylch ei gynnydd o ran cyflawni'r rhaglen waith. Fodd bynnag, mae angen i ffocws gwaith y panel fod ar ei rôl a'i ddiben canolog, sef darparu cyngor arbenigol ar sail tystiolaeth gadarn.

Os yw adrodd ffurfiol yn rhywbeth y mae'r pwyllgor o'r farn ei fod yn bwysig i dryloywder y panel, rwyf yn fodlon ystyried a fyddai'n syniad da gofyn am adroddiad cyflawni i gyd-fynd â chylchred y rhaglen waith.

**8. Pam mae angen y pŵer ar gyfer cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol, a pham nad yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu ar gyfer cofrestrau statudol o asedau hanesyddol eraill, fel tirweddau a meysydd brwydr?**

Nid yw'r gofrestr anstatudol bresennol yn gofrestr gynhwysfawr o barciau a gerddi hanesyddol o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru. Nid yw'r trefniant presennol lle gall perchennog neu feddiannydd dynnu'n ôl oddi ar y gofrestr yn deg nac yn gynaliadwy. Bydd y gofrestr statudol, yn y pen draw, yn gofrestr gyflawn a chynhwysfawr a bydd y Bil yn sicrhau y bydd yn parhau at y dyfodol drwy wneud ei gynnal yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru.

Nid oes angen deddfwriaeth i ddatblygu cofrestrau o asedau hanesyddol eraill, megis tirweddau a meysydd brwydr. Mae gennym eisoes gofrestr gynhwysfawr o dirweddau hanesyddol ac rydym yn y broses o ddatblygu rhestrau o feysydd brwydr. Anodd yw gweld pa fanteision eraill fyddai'n dod yn sgil rhoi'r rhain ar sail statudol. Ni fyddai'n arwain at gynnwys unrhyw dirweddau neu feysydd brwydr newydd nac yn cynyddu'r lefel yr amddiffyniad a roddir o dan y system gynllunio.

**9. Rydym wedi clywed bod archwiliad o'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. I ba raddau ydych chi'n credu bod y crynodeb o'r costau a ragwelir ar gyfer Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol statudol a gynhwysir ym Memorandwm Esboniadol y Bil yn gallu newid, yn dibynnu ar ganlyniadau'r archwiliad hwn?**

Credaf fod y costau a nodir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn gadarn ac yn gywir. Maent wedi'u seilio ar y trefniadau cyllido cyfredol ar gyfer y cofnodion amgylchedd hanesyddol ac maent yn cynnwys cyllid ychwanegol o £80,000 i gefnogi swyddogion cofnod amgylchedd hanesyddol llawn amser o fewn ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

Cynhaliwyd archwiliad arall o gofnodion amgylchedd hanesyddol yn 2010. Fe'i harweiniwyd gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a chafodd ei wirio gan arbenigwr allanol. Nid oes unrhyw reswm i awgrymu y bydd yr archwiliad cyfredol yn datgelu unrhyw beth annisgwyl. Amgaeaf gopi o'r adroddiad er gwybodaeth ichi.

**10. A fydd canlyniadau'r archwiliad o'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol ar gael yn gyhoeddus, neu ar gael i'r Pwyllgor?**

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru sy'n goruchwylio'r archwiliad a disgwylir i'r canlyniadau fod ar gael erbyn diwedd mis Medi 2015. Gofynnaf i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru sicrhau eu bod ar gael i'r Pwyllgor.

**11. I ba raddau y bydd y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Chofnodion Amgylchedd Hanesyddol yn gwella cywirdeb a chysondeb y wybodaeth a gynhwysir yn y cofnodion hyn?**

Bydd rhoi'r cofnodion hyn ar sail statudol yn gwella eu statws ac yn rhoi dyfodol mwy sicr iddynt. Mae'r canllawiau statudol yn cynnwys meincnodau a safonau y bydd rhaid i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol eu bodloni. Bydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn parhau i archwilio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol i weld a ydynt yn bodloni'r meincnodau hyn. Rwy'n disgwyl i'r wybodaeth yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol barhau i wella dros y blynyddoedd i ddod fel y mae wedi gwneud ers yr archwiliad cyntaf yn 2005.

Ymhellach at hyn, drwy roi'r ddyletswydd o greu a chynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol ar awdurdodau cynllunio lleol, bydd darpariaethau'r Bil yn rhoi dylanwad i awdurdodau cynllunio lleol o ran cynnwys cofnodion amgylchedd hanesyddol, ac o ran eu gwella yn y dyfodol. Golyga hyn y daw'r cynnwys i gyd-fynd fwyfwy ag anghenion yr awdurdodau cynllunio lleol.

**12. Pa ystyriaeth a roddwyd gennych i ehangu a datblygu cylch gwaith y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn hytrach na sefydlu'r Panel Cynghori arfaethedig newydd, er mwyn sicrhau nad yw dyletswyddau'n cael eu dyblygu?**

Fel y nodais yn fy llythyr atoch dyddiedig 16 Mehefin, credaf fod gan y Panel Cynghori a'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol rolau gwahanol. Mae'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol yn dod â chyrff ynghyd sydd â diddordeb yn yr amgylchedd hanesyddol er mwyn annog

gweithio mewn partneriaeth, cyfathrebu â rhanddeiliaid a gweithredu cydlynol ar draws y sector amgylchedd hanesyddol.

Cylch gwaith gwahanol fydd gan y panel. Bydd yn darparu cyngor arbenigol i Weinidogion Cymru yn seiliedig ar sail gadarn o dystiolaeth. Caiff aelodau'r panel eu penodi drwy broses o hysbysebu a chystadleuaeth agored. Fy marn yw na all un grŵp gyflawni'r ddau nod heb gyfaddawdu i raddau na fyddai'n dderbyniol.

**Ystyriaethau hawliau dynol**

**13. A oes modd i chi roi rhagor o fanylion am eich rhesymu wrth ddod i'r penderfyniad hwn, gan gynnwys manylion y ffactorau a ystyriwyd gennych wrth benderfynu bod y cydbwysedd cywir wedi'i sicrhau?**

**Yn ogystal â hyn, dywedasoch wrthym, yn ystod y sesiwn ar 8 Gorffennaf, eich bod yn ystyried y byddai'n amhriodol cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch penderfyniadau ar restru henebion ac adeiladau.**

Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer hwn dim ond pan fyddant yn gwybod, neu pan fyddant â rheswm i gredu, fod, neu y gallai fod, heneb hynafol y gwyddys neu y credir ei fod ar y tir, neu oddi tano, mewn perygl agos o gael ei ddifrodi neu ei ddinistrio. Mae Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i arfer eu pwerau yn unol â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol (adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Mae angen darllen y ddarpariaeth newydd hon ar y cyd â darpariaethau cyffredinol yn Neddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 o ran pwerau mynediad. Yn enwedig, mae adran 44(2) yn nodi: *"...a person may not in the exercise of any power of entry under this Act demand admission as of right to any land which is occupied unless prior notice of the intended entry has been given to the occupier...not less than twenty-four hours before admission is demanded"*. Mae Deddf 1979 hefyd yn gwneud darpariaeth gyffredinol ar gyfer digolledu os caiff unrhyw dir ei ddifrodi (adran 46). Rydym yn fodlon bod amddiffyniadau gweithdrefnol digonol yn eu lle a bod gennym y cydbwysedd cywir rhwng hawliau'r unigolyn a gwella'r amddiffyniad a roddir i henebion hynafol, sef yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni gyda'r Bil hwn.

**Pŵer arfaethedig i alluogi awdurdodau cynllunio i adennill costau am ddifrod i adeiladau rhestredig drwy werthu neu lesio'r tir**

Mae'r pŵer i adennill costau drwy werthu'r tir yn debyg i'r pŵer a gynhwysir mewn deddfwriaeth arall (e.e. Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013). Bwriedir i'r pŵer gael ei ddefnyddio pan fetho popeth arall ac ar ôl trafod â'r perchennog am unrhyw gynlluniau ar gyfer yr adeilad dan sylw. Cydnabyddir y gallai perchennog fod angen cyfnod hir i sicrhau cyllid ar gyfer gwaith atgyweirio ac adfer, yn enwedig gydag adeilad mawr neu gymhleth.

Ar yr un pryd, mae gormod o achosion o berchnogion yn esgeuluso adeiladau'n fwriadol, neu, er gwaethaf pob ewyllys da, yn methu ag atal adeilad sydd yn eu gofal rhag dirywio oherwydd diffyg arian. Mewn achosion o'r fath, caiff awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio'r pwerau hyn i achub adeiladau sy'n bwysig i'r gymuned neu i'r genedl.

Rydym wedi ystyried y goblygiadau o ran hawliau dynol. Mae gweithdrefnau diogelu yn eu lle a gall perchennog ddadlau yn erbyn y costau drwy gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ar sail y canlynol (adran 55(4) o Ddeddf 1990):

- nad oedd peth o'r gwaith, neu'r gwaith i gyd, yn angenrheidiol i warchod yr adeilad; neu

- mewn achos o waith i roi cefnogaeth neu loches dros dro, bod y trefniadau dros dro wedi parhau am gyfnod afresymol o hir; neu
- bod y swm a bennir yn yr hysbysiad yn afresymol; neu
- y byddai adennill y swm yn peri caledi iddo.

Bydd Gweinidogion Cymru yna'n gwneud dyfarniad. Caiff y perchennog gyfle arall i herio'r costau drwy apelio penderfyniad Gweinidogion Cymru gerbron y llys sirol.

Dim ond fel a ganlyn y gellir defnyddio'r pwerau i alluogi awdurdodau cynllunio lleol i adennill costau (adran 55(5G) newydd o Ddeddf 1990):
- pan na wneir unrhyw sylwadau i Weinidogion Cymru o fewn y cyfnod a nodir;
- pan wneir sylwadau ond pan na wneir apêl yn erbyn dyfarniad Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod a nodir;
- pan wneir apêl ond bod y penderfyniad ar yr apêl yn cadarnhau dyfarniad Gweinidogion Cymru; neu
- pan wneir apêl ond caiff ei dynnu'n ôl.

Rydym, felly, o'r farn bod gennym y cydbwysedd cywir a bod cyfiawnhad dros unrhyw ymyrraeth â hawliau unigolion yn unol ag amcanion y Bil.

**14. A oes modd i chi ymhelaethu ar y ffactorau a ystyriwyd gennych wrth benderfynu peidio ag ymgynghori â'r cyhoedd yn yr achosion hyn?**

Caiff darpariaethau ymgynghori'r Bil eu cychwyn pan fydd Gweinidogion Cymru wedi gwerthuso rhinweddau adeilad neu heneb ac yn tueddu tuag at ei ddynodi. Y nod yw rhoi cyfle i berchennog yr ased, a fydd yn cael ei effeithio'n uniongyrchol gan y penderfyniad arfaethedig, i wneud sylwadau i Weinidogion Cymru. Bydd angen i sylwadau ymwneud ag a yw'r ased yn bodloni meini prawf cenedlaethol. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol agor y broses hon i'r rheiny na fyddant yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig i ddynodi.

Fodd bynnag, mae'r cyhoedd yn cael cyfle yn gynt yn y broses i ofyn i Weinidogion Cymru ystyried a yw ased yn deilwng o gael ei ddynodi. Rwyf o'r farn mai dyma'r adeg fwyaf priodol ar gyfer cynnwys y cyhoedd.

**Cyflawni pwyntiau gweithredu**

**15. Rhagor o wybodaeth am sail yr amcangyfrif o'ch costau o ran gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i greu a chynnal rhestrau lleol o asedau hanesyddol;**

Atodaf ddogfen sy'n nodi amcangyfrif o gostau datblygu rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yng Nghymru. Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar y dull cyson a nodir yn y ddogfen ganllaw, *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*, y cyhoeddais ar ffurf drafft gyda Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

**16. Yr amserlen ar gyfer adroddiad y Panel Arbenigol ar yr adolygiad o gyflenwi amgueddfeydd yn y dyfodol a'u cynaliadwyedd;**

Rwy'n disgwyl derbyn adroddiad yr Adolygiad Arbenigol o Wasanaethau Amgueddfeydd Lleol yn fuan ac af ati i ystyried ei argymhellion dros yr haf. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn yr wythnosau nesaf a phan ddigwydd hynny fe wnaf Ddatganiad Ysgrifenedig i hysbysu Aelodau'r Cynulliad.

**17. Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Bolisi Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru yn 2013; y dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno system fel bod, lle mae chwiliadau awdurdod lleol yn dangos bod adeilad yn rhestredig a / neu mewn ardal gadwraeth, bod canllawiau clir ynghylch cyfyngiadau a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â statws rhestredig yn cael eu darparu gan yr awdurdod lleol i'r perchennog newydd.**

Derbyniodd Cadw'r argymhelliad hwn ac mae wrthi'n paratoi dogfen ganllaw a fydd yn ffocysu ar gynorthwyo perchnogion i ddeall arwyddocâd eu hadeiladau a'u cyfrifoldebau. Caiff awdurdodau cynllunio lleol ac eraill â diddordeb, megis cyfreithwyr trawsgludo a chofrestryddion tir, fynediad at y ddogfen hon, a chânt eu hannog i'w rhannu â pherchnogion newydd adeiladau rhestredig.

**18. Manylion y dadansoddiad o'r wyth cytundeb partneriaeth treftadaeth sydd wedi'u treialu yn Lloegr.**

Cyfeirir at adroddiad 2006 ar astudiaethau peilot cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn Lloegr yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Bil, ond rhoddaf y ddolen yma er cyfleustra:
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/78120/hrp_breport_eightpilotprojects.pdf

Bydd y gost o roi cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar waith yn amrywio ac mae'r treialon yn Lloegr wedi dangos y gallant fod yn ddigon drud yn y tymor byr, ond y byddant, yn gyffredinol, yn cynhyrchu arbedion dros gyfnod y cytundeb, yn ogystal â darparu manteision eraill. Mae cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer adeiladau rhestredig wedi cael eu hymgorffori yn y gyfraith yn Lloegr yn ddiweddar a gallwn fanteisio ar y profiad a geir yno. Bydd arolygwyr Cadw hefyd yn gallu cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cytundebau o'r fath yn gynnar ac mae canllawiau arfer gorau yn cael eu llunio i gynorthwyo partïon wrth iddynt baratoi cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

Yn gywir,

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

**Amcangyfrif o'r Gost o Ddatblygu Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru**

Mae'r grynodeb hon o gostau potensial ar gyfer paratoi rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yn seiliedig ar y canlynol:

- Profiad awdurdodau lleol yng Nghymru sydd eisoes wedi paratoi rhestrau lleol. Un enghraifft ddefnyddiol o hyn yw profiad diweddar Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a arweiniwyd gan yr adran gadwraeth gan gynnwys y cyhoedd i raddau helaeth;
- Y tasgau a nodir yn y ddogfen ganllaw ddrafft *'Rheoli rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yng Nghymru'.*
- Y profiad o gyflawni ailarolwg rhestru Cadw — a gyflawnwyd fesul cymuned ac a gwblhawyd yn 2005.

Nod y canllawiau drafft yw cyflwyno ffordd gyson o weithio gyda chyfres glir o dasgau ar gyfer sefydlu rhestr leol.

1. Gan gynnwys y gymuned, paratoi datganiad cyffredinol ynghylch arwyddocâd yr ased i'r ardal, ac ymgynghori arno.
2. Datblygu meini prawf ar gyfer dethol, a hynny ar sail meini prawf cenedlaethol ar gyfer dynodi yn ogystal â gwerthoedd lleol penodol, ac yna ymgynghori arnynt.
3. Cynnal arolwg o ardal cyngor y gymuned / y dref er mwyn llunio rhestr gychwynnol.
4. Staff cadwraeth i ddilysu'r safleoedd arfaethedig.
5. Hysbysu perchnogion/meddianwyr, ac ymgynghori â hwy.
6. Ymgynghori ar restr ddrafft gyda'r cyhoedd, cyngor y gymuned / y dref, grwpiau diddordeb lleol a chynghorwyr.
7. Dadansoddi'r ymgynghoriad a mireinio'r rhestr, gan gynnwys delio ag unrhyw wrthwynebiadau.
8. Yr awdurdod cynllunio lleol i fabwysiadu a chadarnhau'r rhestr.
9. Cynnwys y rhestr yn y cofnod amgylcheddol hanesyddol ar gyfer yr ardal a'i chyhoeddi ar wefan yr awdurdod cynllunio lleol a rhoi dolen at unrhyw fapiau gwybodaeth ddaearyddol sydd ar gael yn gyhoeddus.
10. Polisïau cynllun datblygu lleol drafft.
11. Cynhyrchu canllawiau cynllunio atodol.
12. Monitro ac adolygu — cyswllt i gylchred y cynllun datblygu lleol neu brosesau eraill megis adolygiadau gwerthuso ardaloedd cadwraeth.

<u>Amcangyfrif o'r gost fesul awdurdod cynllunio lleol</u>

Cost ar gyfer tasgau 1, 2 a 10–12 — **£2,657** (yn seiliedig ar 20 diwrnod o amser arbenigwr ym maes cadwraeth gan gynnwys cefnogi ymgynghori priodol). Costau untro fydd y rhain i'r awdurdod cynllunio lleol.

Cost tasgau 3–9 fesul cymuned — **£3,933*** (yn seiliedig ar 23 diwrnod o amser arbenigwr ym maes cadwraeth gan gynnwys ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori â pherchnogion ac ati.)

**Cost cyfartaledd fesul awdurdod cynllunio lleol (yn seiliedig ar gyfartaledd o 34.76 o ardaloedd cymunedol fesul awdurdod lleol) — £139,368****

**CYFANSWM CYMRU GYFAN — £3,484,202 (yn seiliedig ar gyfanswm o 869 o ardaloedd cymunedol ledled Cymru)**

*Y gost ar gyfartaledd fesul cymuned yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o'r ailarolwg rhestru yn 2004 oedd tua £4,000 (prisiau 2004).

**Nid yw'n debygol y bydd y costau fesul cymuned yn gyson ar draws Cymru. Mae'r costau mewn cymuned wledig yn debygol o fod dipyn yn uwch na'r costau mewn ardal drefol. Mae nifer yr ardaloedd cymunedol o fewn pob awdurdod cynllunio lleol hefyd yn amrywio'n sylweddol ac mewn rhai ardaloedd (yn enwedig ardaloedd trefol) gall diffyg cynghorau trefol neu gymunedol wneud y broses o ymgysylltu â'r gymuned yn fwy anodd.